**Cyfarfod Llawn 2002 – 2003 (4)**

**Dydd Iau, 16 Mai 2002**

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**
Atebwyd y 7 cwestiwn cyntaf.

**9.28am**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Atebwyd y 9 cwestiwn cyntaf.

**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Broffesiynau Iechyd Cymru -** *Gohiriwyd yr eitem hon tan 23 Mai.*

**9.47am**
**Dadl ar y Strategaeth i Bobl Hyn**
***NDM1053* -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn derbyn ac yn nodi cynnwys Adroddiad y Grwp Ymgynghorol ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 9 Mai 2002;

2. Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod llawn y cytunwyd arno ar 1 Mawrth 2001, yn cadarnhau fel polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru gasgliadau'r Grwp Ymgynghorol mewn perthynas â gofal personol a ddarperir am ddim gan y Cynulliad Cenedlaethol;

3. Yn croesawu bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu ei Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn a'i Gynllun Gweithredu, yn dilyn ymgynghoriad ar Adroddiad y Grwp Ymgynghorol.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cydnabod bod gwahaniaethu ar sail oedran yn bodoli mewn cymdeithas ac yn galw ar

Lywodraeth Cynulliad Cymru i lwyr gydnabod hawliau pobl hyn i gael gwasanaethau cyhoeddus a chyfle i gael gwaith a hamddena.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**
Ychwanegu pwynt newydd:

Yn gweld bai ar Lywodraeth y DU am fethu â mabwysiadu argymhelliad y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir i ddiddymu'r tâl a godir am nyrsio a gofal personol.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**
Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cydnabod bod gwahaniaeth artiffisial ac annheg rhwng nyrsio a gofal cymdeithasol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 9; Ymatal 13; Yn erbyn 22; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3**

O blaid 9; Ymatal 8; Yn erbyn 28; Cyfanswm 45

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Y cynnig**

O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45

**Derbyniwyd y cynnig.**

**11.07am**
**Pwynt o Drefn**
**Gareth Jones ar y ffaith mai yn Saesneg yn unig y darparwyd y ddogfen ategol ar gyfer y ddadl flaenorol.**

**11.09am**
**Dadl Fer wedi'i had-drefnu: *NDM1026* Jonathan Morgan (Canol De Cymru): Cyfranogiad Pobl Ifanc mewn Gwleidyddiaeth.**

**11.38am**
**Dadl Fer: *NDM1052* Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Cymuned yr Armeniaid yng Nghymru a'r Hil-laddiad yn Nhwrci.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.06pm**

*************************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 21 Mai 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

**Dogfennau a osodwyd ar 14 Mai 2002**

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1397
The Animal By-Products (Identification) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 Regulatory Appraisal - LD1398. Dim copi Cymraeg ar gael.
Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Rhif. 2) (Cymru) 2002 - LD1399
Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif. 2) (Cymru) 2002 - LD1400
The Horticultural Development Council (Amendment) Order 2002 - LD1401. Dim copi Cymraeg ar gael.

## ADRODDIADAU'R PWYLLGOR DEDDFAU

**Dogfennau a osodwyd ar 14 Mai 2002**

LC475 - The Meat (Hazard Analysis and Critical Control Point) (Wales) Regulations 2002 - LD1402. *Dim copi Cymraeg ar gael.*
LC476 - The Welsh Language Schemes (Public Bodies) Order 2002 - LD1403. *Dim copi Cymraeg ar gael.*
LC477 - Rheoliadau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg (Iechyd Anifeiliaid) (Diwygio) (Cymru) 2002

- LD1404
LC478 - Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1405